

Galwad am ddata: Tocsinau T-2 a HT-2 mewn bwyd

Statws: Wedi dod i ben

Dyddiad lansio: 18 Gorffennaf 2023

Dyddiad cau: 31 Hydref 2023

Bydd yr alwad hon am ddata o ddiddordeb yn bennaf i'r canlynol:

- cymdeithasau masnach y diwydiant bwyd a ffermio
- ymchwilyr mycotocsin a'r byd academiaidd
- storwyr grawn
- ffermwyr
- partiön rhyngwladol â buddiant

Pwrpas yr alwad am ddata

Mycotocsinau yw T-2 a HT-2 sy'n cael eu cynhyrchu gan y rhywogaeth *fusarium* o ffyngau o dan amodau oer a llaith cyn cynaeafu. Maent yn effeithio'n bennaf ar gnydau grawn fel ceirch, gwenith a haid. Mae presenoldeb T-2 a HT-2 yn dibynnu'n fawr ar y tywydd, a gall amrywio'n fawr yn flynyddol. Mae'r ffaith bod hyn oll yn dibynnu ar yr hinsawdd hefyd yn golygu nad oes dulliau digonol ar hyn o bryd ar gyfer lliniaru cynhyrchu T-2 a HT-2 trwy arferion amaethyddol da.

Rydym yn casglu gwybodaeth am docsinau T-2 a HT-2 mewn bwyd fel y gellir adolygu'r halogion hyn, ac asesu cysylltiad defnyddwyr â nhw drwy ein proses dadansoddi risg. Bydd allbynnau'n cynnwys asesiad risg a sylfaen dystiolaeth a fydd yn llywio unrhyw gyngor yn y dyfodol ar reoli risgiau, gan gynnwys opsiynau rheoli risg posib i'w cyflwyno i Weinidogion.

Sut i ymateb

Gellir anfon data atom naill ai drwy ddefnyddio templed yr ASB neu fformat Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

Dylid cyflwyno data i fsacallsforevidence@food.gov.uk, gan nodi'n glir yn y llinell destun y cyfeirnod am yr alwad hon am ddata, sef T-2 a HT-2, gan atodi'r ffeil ddata a enwir yn briodol.

Templedi ar gyfer data a chanllawiau

EXCEL

[Gweld Templed o daenlen casglu data yr ASB as Excel\(Open in a new window\)](#) (143.64 KB)

[Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r daenlen](#) (Saesneg yn unig).

Manylion yr alwad am ddata

Rydym yn ceisio data o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi grawnfwydydd, o'r maes i fanwerthwyr er mwyn deall y lefelau o T-2 a HT-2 y mae defnyddwyr yn dod i gysylltiad â nhw. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn casglu data ar rawnfwydydd cyn ac ar ôl glanhau/diblisgo a chynhyrchion terfynol, gan gynnwys, lle bo'n bosib, data sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn i adlewyrchu unrhyw amrywio blynyddol yn y lefelau T-2/HT-2.

Hoffem gasglu data am y canlynol:

- ffermydd – grawn heb eu prosesu cyn eu glanhau
- cymeriant melin/ar ôl glanhau
- ar ôl diblisgo
- ar ôl prosesu – rhoi mewn odyn, torri dur, stemio, fflawio ac ati
- cynhyrchion terfynol
- cynhyrchion wedi'u mewnfario

Yn ogystal â'r meysydd gorfodol a geir yn y daenlen, byddai'n ddefnyddiol cynnwys y canlynol, os yw'r wybodaeth hon ar gael, gan ddefnyddio colofn evallInfo.com (Colofn AP):

- disgrifiad clir o ble y digwyddodd y gwaith samplu yn y gadwyn gyflenwi
- cyflwr, hynny yw, wedi'i brosesu/heb ei brosesu
- y rhanbarth daearyddol lle cynhaliwyd y gwaith samplu

Rydym yn ceisio data sy'n gynrychioliadol o'r lefelau a geir ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys samplau heb lefelau canfyddadwy a gwerthoedd uchel. Bydd data a gesglir yn cael ei gyhoeddi fel data cyfanredol ac ni chaiff ei briodoli i unigolyn, busnes, corff masnach na sefydliad.

Dyddiad cau ar gyfer ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw **31 Hydref 2023**. Dyma alwad gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, a bydd unrhyw ddata a gyflwynir ar gael i'r ASB a'r Safonau Bwyd yr Alban ac yn cael ei ddefnyddio yn y broses dadansoddi risg ar gyfer y mycotocsinau hyn.

Os na allwch gyflwyno data erbyn y dyddiad cau hwn, cysylltwch â ni i roi gwybod pryd y bydd gwybodaeth ar gael.

I gael mwy o wybodaeth am sut bydd yr ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at [hysbysiad preifatrwydd yr ASB](#).

I gael mwy o wybodaeth am sut bydd Safonau Bwyd yr Alban yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr [hysbysiad preifatrwydd Safonau Bwyd yr Alban](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr alwad hon am ddata, cysylltwch â'r tîm Halogion Cemegol yn fsacallsforevidence@food.gov.uk.

Gwybodaeth am ein galwadau am ddata

Ewch ati i ddysgu [pam rydym yn ceisio data a sut y caiff eich data ei ddefnyddio](#).